## Dosbarth Idwal

## (meithrin, derbyn a blwyddyn 1)

**Croeso 'nol!**

Blwyddyn Newydd dda i chi gyd a chroeso yn nol ar gychwyn blwyddyn newydd. Gobeithio bod pawb wedi cael cyfle i fwynhau dathliadau'r Nadolig.

**Thema**

Ein thema dros yr wythnosau nesaf fydd 'Deinosoriaid' a byddwn yn dysgu am y gwahanol fathau o ddeinosoriaid a'u nodweddion. Byddwn yn ysgrifennu disgrifiad o ddeinosor.

O ran rhifedd, byddwn yn canolbwyntio ar unedau mesur (hyd a phwysau) a siâp.

Rydym yn credu'n gryf mewn cynnwys llais y plant a chithau fel rhieni yn ein cynlluniau ac felly byddwn yn rhannu taflen gyda chi er mwyn i chi allu cynnig syniadau eich hunain neu rai eich plentyn a byddwn yn ymdrechu i gynnwys y syniadau hyn o fewn y thema 'Deinosoriaid'.

**Addysg Gorfforol—dosbarth derbyn a blwyddyn 1**

Bydd dosbarth derbyn a blwyddyn 1 yn derbyn sesiynau addysg gorfforol gan aelod o staff Urdd Gobaith Cymru am gyfnod yn ystod yr hanner tymor. Bydd y sesiynau'n digwydd ar fore dydd Mercher, felly a wnewch chi sicrhau fod eich plentyn yn dod i'r ysgol mewn gwisg ac esgidiau addas bob dydd Mercher os gwelwch yn dda.

**Darllen**

Byddwn yn parhau i anfon cardiau fflach neu lyfrau darllen adref gyda'r disgyblion. Mae staff y dosbarth hefyd yn gwrando'n gyson ar y disgyblion yn darllen ac maent yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau sydd yn datblygu eu sgiliau darllen yn y dosbarth.

Dyma dynnu eich sylw unwaith eto at yr adnoddau defnyddiol sydd ar gael ar-lein er mwyn cefnogi eich plentyn i ddarllen adref, sef app 'Tric a Chlic' neu'r wefan www.tricachlic.cymru/cy

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth a chyd-weithrediad parhaus.